# Helpwch ein bywyd gwyllt brodorol i ffynnu trwy atal planhigion goresgynn rhag lledaenu

Mae llawer o blanhigion gardd a phlanhigion pwll poblogaidd yn rhai nad ydyn nhw'n frodorol i Brydain – cawsant eu cyflwyno o rannau eraill o'r byd. Er y gall y rhain ein helpu i greu arddangosfeydd hardd i'w mwynhau, os byddan nhw'n dianc i diroedd gwyllt, gall rhai fynd yn oresgynnol, gan niweidio bywyd gwyllt a'r amgylchedd, yr economi, a hyd yn oed ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

MYND AT WRAIDDY MATER

## Pam mae planhigion goresgynnol yn broblem?

Gall planhigion goresgynnol niweidio planhigion brodorol trwy ledaenu plâu a chlefydau planhigol, a chystadlu am ofod, golau, maetholion a dŵr. Mae hyn yn cael effaith ehangach ar rywogaethau eraill sy'n dibynnu ar blanhigion brodorol, gan gynnwys adar, gloÿnnod byw a phryfed eraill, a gallai hyn fygwth goroesiad rhywogaethau planhigion prin.

Mae rhai planhigion goresgynnol yn niweidio'r economi a'n cymunedau trwy ymyrryd ag amaethyddiaeth a chyfleustodau, neu'n ei gwneud hi'n fwy anodd i ni gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden fel pysgota, hwylio neu badlo. Gall eraill hyd yn oed effeithio ar ein hiechyd. Unwaith y byddan nhw wedi sefydlu, mae planhigion goresgynnol yn gostus i'w rheoli a gall y difrod maen nhw'n ei achosi fod yn rhywbeth na ellir ei ddad-wneud. Gall planhigion pwll ac acwariwm fod yn arbennig o ddinistriol os byddan nhw'n dianc i mewn i ardal ddyfrol naturiol.

## Beth alla i ei wneud i helpu fel manwerthwr?

Mae angen eich help arnom! Rydym ni i gyd eisiau gofalu am yr amgylchedd a'n bywyd gwyllt brodorol er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau. Fel manwerthwr, gallwch chi helpu trwy gymryd camau syml i osgoi lledaenu planhigion goresgynnol, ac addysgu'ch cwsmeriaid ar sut y gallan nhw wneud hyn hefyd.

## Gofynnwch i'ch cwsmeriaid Fynd at Wraidd y Mater:

Gall garddwyr helpu trwy ddilyn y tri cham syml hyn:

NABOD EICH PLANHIGION

Dewiswch y planhigion cywir ar gyfer eich gardd, pwll a nodweddion dŵr

STOPIO RHAG YMLEDU

Cadwch eich planhigion yn eich gardd a pheidiwch byth â gadael i unrhyw blanhigion o'ch gardd dyfu mewn tir gwyllt

COMPOSTIO Â GOFAL

Dylech gael gwared ar eich planhigion, gwreiddiau, chwyn, hadau a phennau hadau diangen, mewn ffordd gyfrifol

Deunyddiau am ddim i'ch helpu chi!

Ewch i wefan Mynd at Wraidd y Mater neu cysylltwch â nnss@apha.gov.uk i archebu copïau.

## Atal planhigion goresgynnol rhag lledaenu

Mae yna ystod o blanhigion sydd eisoes wedi'u gwahardd rhag cael eu gwerthu, ac mae'n drosedd caniatáu i nifer o'r planhigion mwyaf goresgynnol dyfu mewn tir gwyllt. Yn yr Alban mae'n drosedd caniatáu i unrhyw blanhigyn estron dyfu mewn tir gwyllt. Mae'n dal yn gyfreithiol i werthu nifer o blanhigion goresgynnol, ond dylid eu tyfu, eu rheoli a'u gwaredu gyda gofal er mwyn osgoi niwed amgylcheddol.

Mae rhestr gyfredol o blanhigion na ellir eu gwerthu'n gyfreithiol i'w gweld ar wefan Mynd at Wraidd y Mater.

## Mesurau eraill yr awgrymir y dylid eu cymryd yn y siop

- Dylech labelu planhigion yn gywir gyda'u henw botanegol llawn, cywir, yn ogystal ag unrhyw enwau cyffredin eraill (os defnyddir y rhain). Cysylltwch â'ch cyflenwyr os oes anghysondebau.
- Helpwch y cwsmeriaid i ddewis planhigion priodol, yn ddibynnol ar faint a phwrpas eu gardd neu bwll.
- Sicrhewch nad oes unrhyw halogyddion mewn nac ar unrhyw blanhigion, dŵr na phridd rydych chi'n eu gwerthu.
- Glanhewch eich offer, cyfarpar ac esgidiau yn rheolaidd, gan gynnwys unrhyw botiau a hambyrddau rydych chi'n eu hailddefnyddio, er mwyn osgoi lledaenu darnau o blanhigion, hadau neu afiechydon planhigol.
- Cadwch lygad am unrhyw beth anarferol, rhowch wybod am blâu a chlefydau planhigol trwy'r Porth Iechyd Planhigion .
- Os dewch o hyd i rywbeth na ellir rhoi gwybod amdano drwy ddefnyddio'r ddolen uchod, gallwch roi gwybod am rywogaethau estron ar-lein trwy iRecord.

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

- Cod Ymarfer y Llyngyren Ledog, gyda gwybodaeth i fanwerthwyr ar atal lledaeniad llyngyr lledog estron sy'n peri risg i bryfed genwair
- Porth Iechyd Planhigion gyda gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigol.
- Gwefan Mynd at Wraidd y Mater www.nonnativespecies.org/beplantwise

MYND AT WRAIDD Y MATER

**Diolch i chi am ein helpu i ofalu am yr amgylchedd. Dim ond gyda'ch cefnogaeth chi y gallwn obeithio lleihau lledaeniad planhigion goresgynnol yn sylweddol.**

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech archebu unrhyw ddeunyddiau, cysylltwch â ni yn nnss@apha.gov.uk**